

Cymru a Noddfa



Yr Wyddfa

Mae llawer o sôn am noddfa - dyma beth mae'n ei olygu.

Beth yw'r Cynllun Cenedl Noddfa?

Wedi'i greu gan Lywodraeth Cymru, mae'n canolbwyntio ar sut mae pobl yn cael eu cefnogi ar ôl iddynt gyrraedd yma - gan eu helpu i ddysgu ieithoedd, deall rheolau lleol, a chyfrannu at eu cymunedau newydd.

Mae'n ymwneud â thegwch, cyfrifoldeb a helpu pobl i sefyll ar eu traed eu hunain.

Ceisio lloches yng Nghymru

Mae Cymru'n cefnogi tua 5% o bobl sy'n ceisio lloches yn y DU - tua 3,500 o bobl. i nifer y bobl sy'n cael eu cefnogi yng Nghymru bob blwyddyn yn llenwi dim ond 3% o Stadiwm y Principality.

Cymru a'r DU

Llywodraeth y DU sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch pwy sy'n cael ei gefnogi yng Nghymru, nid Llywodraeth Cymru. Nid yw mewnfudo yn bŵer datganoledig.

Mae'r nod yn syml: Cymunedau cryfach lle gall pawb chwarae eu rhan drwy groeso cynnes Cymreig.

Pam mae'n gweithio i Gymru

Mae mynediad cynnar i wersi Cymraeg a Saesneg yn helpu pobl i ddod o hyd i waith yn gyflymach. Mae canllawiau clir am hawliau a chyfrifoldebau yn helpu pobl i integreiddio ac osgoi unigedd. Pan all pobl gyfrannu, mae cymunedau'n fwy sefydlog a chydlynol. Mae integreiddio o'r cychwyn o fudd i bawb.

Y gost - mewn cyd-destun

Dros chwe blynedd, mae tua 0.05% o gyllid Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r dull Cenedl Noddfa.

Dyna fuddsoddiad bach sy'n bwriadu lleihau costau hirdymor sy'n gysylltiedig ag unigedd, digartrefedd a gwasanaethau brys.

Cymorth ar yr amser iawn

Nid yw pobl sy'n ceisio lloches yn cael blaenoriaeth wrth gael tai cymdeithasol na gwasanaethau'r GIG. Mae llawer wedi profi trawma cyn cyrraedd, ac mae cefnogaeth gynnar yn helpu i atal problemau mwy yn ddiweddarach.

Mae cefnogaeth gynnar yn lleihau costau a straen hirdymor.

Beth sydd angen newid

Pan fod cyfnodau anodd, mae rhwystredigaeth yn ddealladwy. Ond mae atebion parhaol i'w cael mewn gwella tai, cyflogau a gwasanaethau cyhoeddus - heriau sy'n effeithio ar bob un ohonom.

Mae Cymru deg yn golygu buddsoddi ym mhob cymuned, hen a newydd, er mwyn i bawb ffynnu.

Rydyn ni eisiau byw mewn cymuned sy'n seiliedig ar degwch, nid ofn.

